

CANLLAWIAU AR GYFER ARWEINWYR CYFOED A DARPAR ARWEINWYR CYFOED

Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r Cod Ymarfer ar gyfer y Cynllun Arweinwyr Cyfoed. Hefyd, mae'n bosib lawrlwytho mwy o wybodaeth, syniadau ac enghreifftiau o arfer da o adran Arweinwyr Cyfoed 'FyMangor'.

1. Gwybodaeth gefndir

Mae'r canllawiau hyn yn rhai penodol i ddarpar Arweinwyr Cyfoed a'r rhai sydd wedi cwblhau'r holl brosesau ac wedi cael eu derbyn i'r Cynllun.

Gwirfoddolwyr o blith y myfyrwyr yw Arweinwyr Cyfoed sy'n helpu israddedigion newydd i ymgartrefu yn eu bywyd newydd ym Mangor. Fel gwirfoddolwyr, nid oes tâl am y dyletswyddau arferol ond, i gydnabod y cyfleoedd y mae'n ei roi i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, mae Arweinwyr Cyfoed yn cael pwyntiau profiad tuag at Wobr Cyflogadwyedd Bangor (BEA).

Rheolir y cynllun Arweinwyr Cyfoed yn ganolog gan y Cydlynnydd Cefnogi Cyfoedion, sy'n ymgymryd â'r holl brosesau safonol fel ceisiadau, hyfforddiant, tystlythyrau a gwerthuso ac sydd hefyd yn arwain ar recriwtio. Ar ben hynny, mae Cydlynnydd Arweinwyr Cyfoed ym mhob Ysgol academiaidd sy'n helpu gyda recriwtio, yn ogystal â rhoi'r cynllun ar waith yn ymarferol yn yr Ysgol, gan bennu Arweinwyr Cyfoed i wneud dyletswyddau penodol a neilltuo myfyrwyr newydd ar eu cyfer.

Mae'r garfan Arweinwyr Cyfoed yn cynnwys Arweinwyr Cyfoed newydd (Arweinwyr Cyfoed Tro Cyntaf) a rhai sy'n dychwelyd at y cynllun am yr ail, neu hyd yn oed y trydydd, tro (Uwch Arweinwyr Cyfoed). Defnyddir y term 'Uwch' yn weinyddol i ddynodi Arweinwyr Cyfoed sydd eisoes wedi'u hyfforddi, ac y mae geirda iddynt ar gael yn barod ar ffeil. Mae ganddynt yr un dyletswyddau arferol ag y mae'r holl Arweinwyr Cyfoed yn eu cyflawni ond, oherwydd eu bod yn fwy profiadol, mae llawer o Ysgolion academiaidd yn gofyn am eu barn a'u sylwadau wrth gynllunio'r Wythnos Groeso.

Tra bo'n well gan rai Ysgolion academiaidd gadw at y ddwy lefel a ddisgrifiwyd uchod i'w carfan Arweinwyr Cyfoed, mae eraill yn hoffi ychwanegu trydedd lefel. Gelwir y rhain fel rheol yn Brif Arweinwyr Cyfoed ac maent yn gweithio'n agosach gyda'r staff ac yn cymryd cyfrifoldeb ychwanegol. Gellir gofyn iddynt ddychwelyd i Fangor ychydig yn gynt nag Arweinwyr Cyfoed eraill ac fel rheol maent yn cyflawni tasgau megis: trefnu digwyddiadau; gweithredu fel arweinydd tîm a rhoi arweiniad i Arweinwyr Cyfoed eraill; pennu myfyrwyr newydd a dyletswyddau i Arweinwyr Cyfoed; casglu ynghyd adnoddau fel pecynnau gwybodaeth, llawlyfrau a chrysau T a'u dosbarthu. Fel rheol mae'r Prif Arweinwyr Cyfoed yn Uwch Arweinwyr Cyfoed, er nad yw hynny'n wir ym mhob achos.

Oherwydd bod y cyfrifoldebau ychwanegol a bennir i Uwch Arweinwyr Cyfoed y tu allan i brif gylch gorchwyl swydd Arweinydd Cyfoed, mae'r telerau y cynigir y dyletswyddau hynny iddynt yn fater rhwng yr Ysgolion Academiaidd a'r Arweinwyr Cyfoed. Fodd bynnag, yn ychwanegol at y pwyntiau BEA a

roddir i'r holl Arweinwyr Cyfoed, gellir rhoi pwyntiau ychwanegol tuag at y BEA i Uwch Arweinwyr Cyfoed. Yr un modd, gall staff yn yr ysgolion academaidd argymhell rhoi pwyntiau BEA ychwanegol i unrhyw Arweinydd Cyfoed sy'n dangos ymroddiad tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir yn y swydd, boed hynny'n golygu cymryd cyfrifoldebau ychwanegol i lenwi bylchau mewn darpariaeth, neu helpu gyda sefyllfaoedd o natur fwy heriol neu hirfaith. Gellir dyfarnu'r pwyntiau hyn yn ychwanegol at bwyntiau i Brif Arweinydd Cyfoed, os yw hynny'n briodol.

Mae'r Cydlynnydd Cefnogi Cyfoedion Canolog yn rhoi gwybod am gyfleoedd eraill â thâl neu rai gwirfoddol i'r Arweinwyr Cyfoed.

2. Dod yn Arweinydd Cyfoed

Argymhellir bod darpar Arweinwyr Cyfoed yn dod i sesiwn wybodaeth fel eu bod yn deall ethos a gofynion y swydd cyn gwneud cais. Datblygir yr elfennau hyn ymhellach wedyn mewn hyfforddiant Arweinwyr Cyfoed lle mae'r pwyslais ar yr ymroddiad a'r ymddygiad a ddisgwylir ganddynt yn eu swydd o ymddiriedaeth. Mae'r pwyslais hwn ar ddwy elfen gysylltiedig:

- **ymddwyn mewn modd cyfrifol er enghraifft:**
 - bod yn esiampl cadarnhaol; gallai hyn gynnwys annog:
 - cadw at reolau a rheoliadau'r Brifysgol.
 - agwedd gadarnhaol at fywyd myfyrwyr ac astudiaethau.
 - cadw cyfrinachedd mewn perthynas â'r holl wybodaeth bersonol a ymddiriedir iddynt, gan staff neu fyfyrwyr, oni bai bod pryder ynghylch lles; gallai hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill:
 - manylion cyswllt.
 - anabledd neu faterion iechyd.
 - problemau personol.
 - hyrwyddo agweddau synhwyrol mewn cysylltiad â materion fel diogelwch personol ac yfed.
- **peidio ag ymddwyn mewn unrhyw ffordd sy'n tanseilio'r ymddiriedaeth a roddwyd ynddynt er enghraifft:**
 - peidio â manteisio ar wendid eraill; gallai hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill:
 - peidio â rhoi pwysau ar eraill i gymryd rhan mewn gemau yfed, neu or-yfed, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill nad ydynt yn ymddangos yn gyfforddus â nhw.
 - peidio ag ymddwyn mewn modd rhywiol.
 - peidio â chamdefnyddio ymddiriedaeth y Brifysgol ynddynt; gallai hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill:
 - peidio â gwerthu neu roi eu crysau T Arweinwyr Cyfoed i eraill nad ydynt yn Arweinwyr Cyfoed.
 - peidio â dosbarthu taflenni masnachol.

- peidio â rhoi pwysau ar fyfyrwyr newydd i wneud gweithgareddau dim ond er mwyn cael gwobr.

Er mwyn cael eu derbyn ar y cynllun, RHAID i bob Arweinydd Cyfoed wneud y canlynol*:

- llenwi'r ffurflen gais ar-lein a gaiff ei throsglwyddo wedyn i'r Ysgol Academaidd i'w chadarnhau.
- mynd i'r hyfforddiant gorfodol.
- pasio'r broses sgrinio h.y. nid oes unrhyw beth anffafriol yn ymddangos yn y geirdaon allanol, yng nghofnodion yr ysgol academaidd neu yng nghofnodion disgyblu'r Brifysgol.

Bydd Arweinwyr Cyfoed sy'n cael eu derbyn ar y cynllun sy'n dangos ymddygiad amhriodol wedyn, yn cael eu tynnu o'r rhestr o Arweinwyr Cyfoed gweithredol, ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif nac unrhyw bwyntiau Gwobr Cyflogadwyedd Bangor pellach.

Er mwyn helpu yn hyn o beth, bydd y Cydlynnydd Cefnogi Cyfoedion, gyda chefnogaeth Cydlynnydd Arweinwyr Cyfoed yr Ysgol yn:

- hysbysebu'r sesiynau gwybodaeth recriwtio.
- cadw mewn cysylltiad â darpar Arweinwyr Cyfoed drwy eu cyfeiriadau e-bost prifysgol.
- arwain darpar Arweinwyr Cyfoed drwy'r prosesau uchod.

Mae'n bwysig bod darpar Arweinwyr Cyfoed yn ymateb yn gyflym i e-byst i sicrhau bod y cais yn cael ei lenwi'n effeithlon a chyflym.

3. Arwain Cyfoed ar Waith

Ar ôl cwblhau'r holl brosesau uchod yn llwyddiannus, bydd enwau ymgeiswyr yn cael eu cynnwys ar y rhestr o Arweinwyr Cyfoed ar gyfer eu hysgolion academaidd. Maent yn gweithio wedyn drwy eu Hysgolion Academaidd; bydd y Cydlynnydd Arweinwyr Cyfoed yn yr Ysgol yn trefnu'r gweithgareddau ac yn pennu dyletswyddau a myfyrwyr newydd i bob Arweinydd Cyfoed. Dyna lle caiff gweithgareddau Croeso eu trefnu, a dyletswyddau eu pennu. Mae dwy brif elfen i Arwain Cyfoedion:

- cynnig cefnogaeth gyffredinol mewn gweithgareddau cynefino ysgolion a digwyddiadau cymdeithasol.
- croesawu a chefnogi'n agosach grŵp bychan o fyfyrwyr newydd a bennir iddynt gan yr ysgol academaidd.

Er mwyn helpu myfyrwyr newydd yn effeithiol, dylai Arweinwyr Cyfoed wneud y canlynol:

- mynd i'r cyfarfodydd Arweinwyr Cyfoed yn yr ysgol academaidd.
- cadw mewn cysylltiad â staff, cyd Arweinwyr Cyfoed a'r myfyrwyr newydd a bennir iddynt. Nid oes raid i Arweinwyr Cyfoed roi manylion personol os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Gellir cysylltu drwy e-byst y brifysgol yn hytrach na ffôn symudol neu gyfrifon e-bost personol os yw hynny'n well ganddynt.

- dychwelyd i Fangor mewn pryd i gwrdd â myfyrwyr newydd - bydd hyn ar y dydd Gwener cyn y penwythnos y bydd y myfyrwyr newydd yn cyrraedd.
- gwneud dyletswyddau a bennir iddynt; bydd hyn yn amrywio, ond mae'n debygol o gynnwys:
 - cyfarfod a chyfarch y myfyrwyr newydd naill ai yn eu neuaddau preswyl, neu yn yr Ysgol, fel bo'n briodol.
 - helpu gyda sesiynau cynefino a gynhelir yn yr ysgol.
 - teithiau o amgylch y brifysgol a'r dref.
 - helpu gyda digwyddiadau cymdeithasol a theithiau Ysgolion.
 - helpu gyda gweithgareddau llai ffurfiol a drefnir gan y garfan o Arweinwyr Cyfoed.
- cynnwys pawb:
 - croesawu ein holl fyfyrwyr newydd.
 - bod yn gyfeillgar ac yn barod i helpu.
 - parchu safbwyntiau a daliadau'r myfyrwyr newydd.
 - darparu a / neu hyrwyddo gweithgareddau i ddiwallu anghenion a diddordebau amrywiaeth o fyfyrwyr, er enghraifft:
 - gweithgareddau eraill i'r rhai nad ydynt yn yfed.
 - cyflwyno myfyrwyr i rai eraill sy'n debygol o rannu diddordebau neu nodweddion cyffredin fel myfyrwyr hŷn, myfyrwyr sy'n byw gartref, myfyrwyr rhyngwladol neu gyd-breswylwyr mewn neuaddau.
 - cysylltu gydag Arweinwyr Cyfoed o ysgolion eraill lle bo'n briodol ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio ar draws ysgolion.
- gwranddo ar y rhai sy'n cael mwy o drafferth ymgartrefu ym Mangor, a dangos empathi a'u cysuro.
- cyfeirio myfyrwyr newydd at wasanaethau cefnogi priodol os oes angen.
- gofyn am gefnogaeth gan staff perthnasol os codir materion sydd y tu hwnt i swyddogaeth Arweinydd Cyfoed.

Bwriad y gefnogaeth hon i fyfyrwyr newydd yw hwyluso'r ymgartrefu ym Mangor, ac ar ôl yr wythnos gyntaf, disgwylir y bydd y gefnogaeth hon yn lleihau'n bur gyflym. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu cydbwysu gydag anghenion y rhai sy'n cymryd ychydig yn hwy i ymgartrefu. Caiff Arweinwyr Cyfoed eu hannog i gadw lefel o gefnogaeth 'fwy llac', llai trwm tra bo'r myfyrwyr newydd yn dymuno hynny, ond dylent gadw mewn cof yr angen i drosglwyddo achosion i staff priodol fel y tynnir sylw ato yn yr hyfforddiant.

Wrth wneud yr uchod, cynghorir Arweinwyr Cyfoed gan y staff perthnasol, a fydd ar gael hefyd i roi arweiniad a chefnogaeth ar faterion Arweinwyr Cyfoed yn ôl yr angen.

4. Cyfleoedd Ychwanegol

Weithiau, bydd Arweinwyr Cyfoed yn dod o hyd i gyfleoedd ychwanegol sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn arbennig o wir ynglŷn ag Uwch Arweinwyr Cyfoed, sy'n aml yn ymgymryd â dyletswyddau y tu hwnt i'r rhai arferol a ddisgrifir

uchod. Caiff y rhai sy'n ymgymryd â'r dyletswyddau ychwanegol yn aml eu galw'n Brif Arweinwyr Cyfoed. Mae'r dyletswyddau ychwanegol yn dibynnu sut mae'r Ysgol Academaidd yn dymuno trefnu'r garfan o wirfoddolwyr, ac mae'n fater trafod rhwng yr Ysgol a'r Arweinwyr Cyfoed. Gall y cyfleoedd ychwanegol hyn gynnwys:

- bod yn rhan o bwyllgor trefnu.
- ymgymryd â rhan flaenllaw drwy drefnu digwyddiadau a/neu gefnogi Arweinwyr Cyfoed llai profiadol.
- dychwelyd i Fangor yn gynnar er mwyn helpu i drefnu rotâu, dosbarthu crysau T, paratoi gwybodaeth.
- digwyddiadau recriwtio.
- cyfleoedd eraill sy'n codi yn yr Ysgol Academaidd.

Ar adegau, bydd cyfleoedd eraill a ddsberthir gan y Cydlynnydd Cefnogi Cyfoedion, y credir y byddant o ddiddordeb posib i Arweinwyr Cyfoed.

Mae'r Cydlynnydd Cefnogi Cyfoedion ar gael i roi cyngor ac arweiniad ar bob elfen o Arwain Cyfoedion, a gellir cysylltu ag ef/hi ar peerguidng@bangor.ac.uk neu 01248 382072. Ceir gwybodaeth hefyd i gefnogi Arweinwyr Cyfoed yn eu swydd ar FyMangor, y mae gan bob Arweinydd Cyfoed fynediad ato.

Nodiadau

*Nid yw Uwch Arweinwyr Cyfoed yn mynd i'r hyfforddiant gorfodol yr eildro, ac ni fydd galw am eirdaon ychwanegol chwaith. Fodd bynnag, caiff eu cofnodion disgyblu eu hailwirio, a chynigir y cyfle iddynt fynd i sesiwn hyfforddiant ddewisol sydd â'r nod o'u helpu i ymgymryd â rôl flaenllaw.